

Dod â Gofal yn Nes Adref: Gwella gofal diwedd oes mewn cymunedau anghysbell, gwledig ac ynysoedd

Briff i Gymru, Mehefin 2025

Cyflwyniad

Dylai pawb, ble bynnag maent yn byw, gael y gofal a'r cymorth diwedd oes gorau posibl. Ond mae anghenion pobl sy'n byw yn y wlad wedi cael eu hanwybyddu'n rhy hir.

Mae un o bob tri pherson yng Nghymru yn byw mewn ardaloedd gwledig¹. Mae pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn wynebu heriau unigryw a sylweddol wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal. Mae pellter hir i deithio, mae trafnidiaeth gyhoeddus yn ddiffygiol ac mae prinder staff iechyd a gofal difrifol – sy'n golygu bod pobl yn cael trafferth cael y gofal sydd ei angen arnynt. Mae'r heriau hyn hyd yn oed yn fwy i'r rhai sydd ar ddiwedd eu hoes.

Mae cyfran uwch o bobl hŷn yn byw mewn cymunedau gwledig nag yn ein trefi a'n dinasoedd. Mae poblogaethau gwledig yng Nghymru wedi heneiddio ddwywaith mor gyflym ag ardaloedd trefol². Ar yr un pryd, mae llai o bobl oed gweithio a allai ddarparu gofal, yn byw yn y wlad.

Yn aml, nid oes gan bobl sy'n symud i gymunedau gwledig yn hwyrach yn eu bywyd yr un rhwydweithiau cymorth a'r rhai sydd wedi byw yno erioed. Mae nifer y bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain mewn ardaloedd gwledig hefyd ar gynydd.

Ni ellir anwybyddu'r argyfwng demograffig hwn. Disgwylir i'r galw am ofal lliniarol ledled y DU gynyddu 25% yn ystod y 25 mlynedd nesaf. (2023-2048)³. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio'n gynt, bydd y cynnydd hwn yn y galw ar ei fwyaf dwys mewn ardaloedd gwledig.

Nid yw gofal lliniarol yn ymwneud â gofal diwedd oes yn unig. Mae'n ymwneud â chefnogi pobl i fyw'n dda gyda chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd, am nifer o flynyddoedd weithiau. Mae hyn yn arbennig o wir am blant a phobl ifanc, y mae eu hanghenion a'r gofal sydd ei angen arnynt yn wahanol iawn i anghenion oedolion. Mae nifer y plant a phobl ifanc sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol ac yn gyflym yn y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy o blant yn byw i fod yn oedolion⁴. Mae plant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, a'u teuluoedd, eisoes yn wynebu nifer o anawsterau a heriau wrth gael mynediad at ofal a chymorth⁵. Mae byw mewn cymuned gwledig yn dod â heriau ychwanegol. Mae llai o wasanaethau pediatrig ar gael, mae teuluoedd yn gorfod teithio ymhellach, ac mae staff iechyd a gofal gwledig yn llai cyfarwydd â chefnogi plant ag anghenion cymhleth⁶.

Ni ddylai lle rydych yn byw effeithio ar sut rydych yn marw. Mae angen cymryd camau ar frys i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau cynhenid mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn eu hwynebu, ac i sicrhau bod pob oedolyn a phlentyn yn cael y gofal lliniarol gorau posibl nawr ac yn y dyfodol.

Canfyddiadau allweddol

Yr adroddiad hwn yw'r adroddiad polisi cynhwysfawr cyntaf sy'n ymdrin ag anghenion lliniarol oedolion a phlant mewn cymunedau anghysbell, gwledig ac ynysoedd ledled y DU. Yn seiliedig ar ymgysylltiad helaeth â chleifion, gofawyr a gweithwyr proffesiynol, gwnaethom ganfod y canlynol:

- Mae profiadau pobl o ofal lliniarol mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru yn amrywio'n fawr. Dywedodd hanner y bobl y clywsom ni ganddynt, sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, *nad oeddent* hwy na'r person â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd yr oeddent yn gofalu amdano wedi cael y gofal na'r cymorth yr oedd ei angen arnynt⁷. Mae'r diffyg cymorth gartref, yn enwedig dros nos, a'r oedi mewn cael mynediad at feddyginiaeth yn enwedig yn heriol.
- Dywedodd bron i dri chwarter y staff iechyd a gofal gwledig a holwyd yng Nghymru nad oedd digon o staff â'r sgiliau cywir i gefnogi pobl sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd⁸. Mae diffyg staff gofal cymdeithasol yn enwedig.
- Mae pobl yn cael eu gorfodi i ddewis rhwng lle maent yn byw a'r gofal maent yn ei gael. Mae'r rhai sydd ar ddiwedd eu hoes yn wynebu symud oriau i ffwrdd o'u teulu a'u ffrindiau i gael mynediad at ofal. Mae angen mwy o gefnogaeth arnynt fel y gallant aros gartref ac yn eu cymuned leol.
- Dywedodd pobl sy'n byw ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr nad oedd gofal wedi'i gydgyssylltu. Fe wnaethant adrodd am broblemau gydag ariannu trawsffiniol, diffyg dealltwriaeth staff o'r gwasanaethau y gallent eu defnyddio, a phroblemau wrth geisio cael mynediad at rai meddyginiaethau.
- I siaradwyr Cymraeg, mae cael gofal lliniarol yn eu hiaith ddewisol yn hanfodol ar gyfer cyfathrebu clir, cysylltu a chynllunio gofal effeithiol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl gyda dementia, a all droi'n ôl at eu mamiaith, ond mae hefyd yn bwysig i bobl o bob oed. Dywedodd pobl bod y mynediad at staff sy'n siarad Cymraeg yn anghyson, er iddynt ddweud fod gwybod llond dwrn o ymadroddion yn help i feithrin cyfathrebu a chydberthynas.
- Mae teuluoedd plant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd sy'n byw yn y wlad yn wynebu anawsterau ychwanegol sylweddol wrth gael mynediad at ofal a chymorth. Mae gwasanaethau gwledig i blant ag anghenion cymhleth yn brin, mae staff lleol yn aml yn anghyfarwydd ac yn ansicr, ac mae cynnal gwasanaeth gofal lliniarol teg yn anodd pan mai dim ond ychydig o deuluoedd sydd wedi'u gwasgaru dros bellteroedd mawr.
- Mewn ardaloedd gwledig, mae'r ffaith bod staff dan straen a'r adnoddau'n gyfyngedig yn golygu bod galw am ddull creadigol a yrrir gan y gymuned. Mae pobl angen yr hyblygrwydd i ddarparu gofal ar gyfer eu hanghenion, gan fanteisio ar gryfderau cymunedol a chymorth sydd eisoes yn bodoli.

Profiadau pobl

"Cafodd fy ngŵr ddiagnosis o ganser y bledren a'r brostad 10 mlynedd yn ôl. Roedd yn annibynnol iawn ynghylch yr holl beth. Roedd yn mynnu gyrru ei hun. Roedd yn daith awr a hanner yn y car. Ac yna byddai'n rhaid iddo gael ei gemotharapi a dychwelyd adref a bod yn sâl. Fi oedd yn ei yrru tua'r diwedd a daeth hynny'n gwbl angenrheidiol. Ond roedd hi'n daith mor hir. Roedd hi'n eithaf blinderus. Cefais wybod bod gwasanaeth cludo cleifion ar gael a cheisiais archebu lle, ond wnaethon nhw ddim dod i'w gasglu ar un achlysur. Ac ar achlysur arall, roedden nhw mor hwyr, fel y bu'n rhaid i mi ei yrru p'un bynnag. Pethau fel yna oedd yn hynod rwystredig, ar ben gofalu am rywun.

Dwi'n cofio gorfod mynd i gasglu ei feddyginiaeth unwaith a doedd gan yr un fferyllfa yn ein tref leol yr oxycodone, felly bu'n rhaid i mi yrru o gwmpas [yr ardal] i geisio dod o hyd i fferyllfa oedd â chyflenwad. Pethau bychain fel yna sy'n gwneud pethau mor anodd. Ar y diwrnod hwnnw, baswn i wedi hoffi cysylltu gyda rhywun i esbonio beth oedd y sefyllfa. Mae o mewn poen difrifol a dwi'n mynd i orfod gyrru o gwmpas [yr ardal] i geisio dod o hyd i fferyllfa sydd â chyflenwad. Byddai rhywbeth fel yna wedi bod yn gymaint o help."

Gofalwr mewn galar, Cymru

"Gan ein bod ni'n byw mewn ardal wledig, rydyn ni'n dal i adnabod y rhan fwyaf o bobl sy'n byw yma. Mae hi'n gymuned eithaf clôs. Mae un o uwch reolwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn byw tua hanner milltir i lawr y ffordd ac fe wnes i ddigwydd taro arni un diwrnod wrth i mi fynd am dro. Fe wnaeth hi stopio a dweud, "Gwelais eich gwraig yn yr ardd ffrynt ychydig o ddyddiau yn ôl ac mae angen i chi gysylltu â ni ar unwaith syth. Ro'n i wedi fy synnu at y newid ynddi."

Doeddwn i'n gwybod dim am wasanaethau cymdeithasol na'u rôl. Felly fe wnes i gymryd ei chynghor a dywedodd hi, "ydych chi eisiau dilyn y llwybr taliadau uniongyrchol?"... Ro'n i'n digwydd adnabod gofalwr oedd wedi ymddeol, ac yn ffodus, gan ein bod ni'n byw mewn cymuned glôs o bentrefi bychain, roedd yna gwpwl o ofalwyr eraill oedd wedi ymddeol o'r awdurdod lleol a ddaeth i helpu. Felly ro'n i'n ffodus iawn yn y gofalwyr. Fe wnes i hyd yn oed gael nyrs dan hyfforddiant fel gofalwraig gan ei bod hi'n ferch-yng-nghyfraith i un o'r gofalwyr. Ro'n i'n ffodus iawn, iawn, achos mae gofal da yn beth prin."

Gofalwr mewn galar, Cymru


"O ddifrif, ro'n ni'n dweud yn aml wrth ein tîm lleol ei bod yn teimlo fel eu bod nhw'n gobeithio y byddai plant ifanc gydag anabledau dwys un ai'n symud oddi yma neu'n marw cyn cyrraedd eu harddegau neu fod yn oedolion, gan nad oedd ganddynt yr adnoddau i ymdopi â nhw. Mae'n drist ond roedd o fel petaem ni'n arwain y ffordd ar bob cam, pan allem ni wir fod wedi gwneud gyda system i'n dysgu ni sut i wneud pethau er gwell. Arweiniodd at lwybr hynod o aneglur ac aflwyddiannus i'n mab."

Rhiant plentyn sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd, Cymru

"Rydyn ni'n haeddu'r gwasanaethau gymaint â phobl sy'n byw mewn dinasoedd, a allai fod wedi cyrraedd hanner dwsin o hosbisau o fewn taith 4 awr yn y car."

Gofalwr mewn galar, Cymru

**Beth fyddai'n gwella gofal a chymorth i oedolion a phlant
mewn ardaloedd gwledig sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd?**



Argymhellion allweddol

Beth all gael ei wneud nawr:

- Mae angen i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol asesu a bod yn atebol am gomisiynu a darparu gofal lliniarol a gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n diwallu anghenion oedolion a phlant mewn ardaloedd gwledig sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd.
- Mae angen i ddarparwyr gofal hosbisau, meddygon teulu, timau nyrsio cymunedol, fferyllwyr cymunedol, staff gofal cymdeithasol, timau allan o oriau, a staff eraill adnabod cyfleoedd i gydweithio'n agosach er mwyn pontio'r bylchau mewn gofal lliniarol mewn cymunedau gwledig - yn enwedig gofal yn y cartref, gwella hyfforddiant ac addysg gofal lliniarol, a gwella mynediad at feddyginiaeth.
- Mae angen i ddarparwyr gofal hosbisau weithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol er mwyn cael dealltwriaeth well o'r hyn sydd ei angen ar oedolion a phlant mewn ardaloedd gwledig sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd; pa grwpiau cymunedol, rhwydweithiau ac adnoddau sydd eisoes ar gael; a sut orau i adeiladu ar y rhain, drwy fentrau cymunedol trugarog, er enghraifft.
- Mae angen i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod pobl sy'n byw yn y wlad yn ymwybodol o daliadau uniongyrchol ac yn cael eu cefnogi i'w defnyddio, fel bod ganddynt fwy o hyblygrwydd a rheolaeth i drefnu gofal sy'n diwallu eu hanghenion.
- Mae angen i fyrddau iechyd sicrhau cyllid cynaliadwy a chomisiynu gwasanaethau lliniarol a hosbisau yn decach, er mwyn adlewyrchu'r gost uwch o ddarparu gwasanaethau mewn cymunedau gwledig.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r Rhaglen Genedlaethol Gofal Lliniarol a Diwedd Oes sicrhau fod y Fanyleb Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes a'r Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol ar gyfer Hosbisau yn cynnwys anghenion penodol pobl mewn cymunedau gwledig.

Blaenoriaethau ar gyfer datblygu gwasanaethau a buddsoddi:

- Mae angen i Lywodraeth Cymru ymrwymo cyllid ac adnoddau i fraenaru'r tir tuag at ddarparu mwy o ofal lliniarol yn y gymuned.

- Mae angen i fyrddau iechyd gomisiynu, ariannu a sicrhau bod llinell gymorth gofal lliniarol 24/7 sydd ag un pwynt mynediad ar gael i gleifion, gofalwyr di-dâl a staff iechyd a gofal er mwyn iddynt gael mynediad at gymorth a chyngor arbenigol.
- Mae angen i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gynyddu cymorth, adnoddau a hyfforddiant i ofalwyr di-dâl sy'n gofalu am rywun â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd yn y wlad, mewn partneriaeth â gwasanaethau a chymunedau lleol.
- Mae angen i fyrddau iechyd sicrhau bod safonau gofynnol o gyngor lles a nawdd cymdeithasol yn cael eu darparu ar gyfer pobl sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd a'u gofalwr mewn cymunedau gwledig.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru a byrddau iechyd adolygu a gweithredu polisïau cyson i ad-dalu costau teithio a llety a darparu cludiant wedi'i ariannu, ar gyfer pobl â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd a'u gofalwyr, sy'n teithio i gael mynediad at wasanaethau.
- Mae angen i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau iaith Gymraeg yn ystyried anghenion pobl ar ddiwedd eu hoes, ac yn cynnwys staff gofal hosbis mewn cyfleoedd ac adnoddau.
- Mae angen i fyrddau iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn ogystal â Byrddau Gofal Integredig yn Lloegr, gyflwyno dulliau cliriach a mwy hyblyg o gomisiynu gofal lliniarol ar draws ffiniau a therfynau.

Blaenoriaethau hirdymor:

- Mae angen i Berfformiad a Gwellu GIG Cymru ac Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) ddatblygu cynllun gweithlu gofal lliniarol a diwedd oes, sy'n mynd i'r afael â'r galw cynyddol am ofal lliniarol mewn cymunedau gwledig.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn gwella'r seilwaith digidol, cyfathrebu, trafnidiaeth a thai mewn cymunedau gwledig.

Mae argymhellion llawn, canfyddiadau mwy manwl ac astudiaethau achos arloesol ar gael yn y [prif adroddiad](#)

Cyswllt: policy@hospiceuk.org

Cyfeiriadau

¹ Conffederasiwn y GIG. Iechyd a gofal gwledig: Cymru. [Briff]: Conffederasiwn y GIG; 2018.

² Intergenerational Foundation. No country for young people: The problems of accelerating rural-urban age segregation. [Policy report] [London]: Intergenerational Foundation; 2023.

³ Marie Curie. How many people need palliative care? Updated estimates of palliative care need across the UK, 2017-2021. [Data and evidence briefing] [London]: Marie Curie; 2023

⁴ Fraser L, Bedendo A, Jarvis S. Children with a life-limiting or life-threatening condition in Wales: trends in prevalence and complexity. [York]: [University of York]; 2023

⁵ Together for Short Lives. Built to last? The state of children's palliative care in 2025. Bristol: Together for Short Lives; 2025. Available at: <https://www.togetherforshortlives.org.uk/changing-lives/speaking-up-for-children/policy-advocacy/the-state-of-childrens-palliative-care-in-2025/>

⁶ Papworth A, Hackett J, Beresford B, Murtagh F, Weatherly H, Hinde S, et al. Regional perspectives on the coordination and delivery of paediatric end-of-life care in the UK: a qualitative study. BMC Palliat Care. 2023; 22(1):117. doi: 10.1186/s12904-023-01238-w.

⁷ Roedd 14 o'r 49 o bobl a ymatebodd i arolwg profiad bywyd Hospice UK yn byw yng Nghymru. Cymerodd 7 o bobl eraill sy'n byw yng Nghymru ran mewn grwpiau ffocws mwy manwl. Dywedodd 7 allan o'r 14 o bobl o Gymru a ymatebodd i'r arolwg nad oeddent hwy na'r person â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd yr oeddent yn gofalu amdano wedi cael y gofal na'r cymorth angenrheidiol.

⁸ 36 o'r 235 o staff iechyd a gofal gwledig a ymatebodd i arolwg gweithwyr proffesiynol Hospice UK oedd yn gweithio yng Nghymru. Dywedodd 26 allan o'r 36 o ymatebwyr o Gymru nad oedd digon o staff i ddiwallu anghenion pobl.